OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2015 Rhif 1713 (Cy. 227)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge, Ynys Môn i Gyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth, Gwynedd) (Gwyntoedd Cryfion ar Bont Britannia) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2015

Gwnaed	*8 Medi 2015*
Yn dod i rym	*14 Medi 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer i Fangor a Llundain i Gaergybi (yr A55) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd pan fo gwyntoedd cryfion.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Medi 2015. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge, Ynys Môn i Gyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth, Gwynedd) (Gwyntoedd Cryfion ar Bont Britannia) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2015.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o'r gefnffordd ar Bont Britannia a'r ffyrdd sy'n arwain ati yn Siroedd Ynys Môn a Gwynedd, a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb reidio na gyrru unrhyw gerbyd sy'n fwy na 2.5 metr o uchder, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd o'r fath, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw garafán fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb reidio na gyrru unrhyw feic modur, na pheri na chaniatáu i unrhyw feic modur, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb reidio unrhyw feic pedal, na pheri na chaniatáu i unrhyw feic pedal, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

Cymhwyso

8. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny pan fydd cyflymder y gwynt yn fwy na lefel a all effeithio ar ddiogelwch pob cerbyd dros 2.5 metr o uchder, carafanau, beiciau modur a beiciau pedal a phan fydd arwyddion traffig yn dangos graddau a chymhwysiad y gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt.

9. Ni fydd darpariaethau erthygl 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny pan fydd cyflymder y gwynt yn fwy na lefel a all effeithio ar ddiogelwch unrhyw fath o gerbyd a phan fydd arwyddion traffig yn dangos graddau a chymhwysiad y gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

10. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 8 Medi 2015

R Morgan
R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi.

(2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLEN

1. Y darn o brif gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 170 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5025 dros y gefnffordd wrth Gyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge, Ynys Môn hyd at bwynt 74 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r gefnffordd dros yr A487 wrth Gyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth, Gwynedd.

2. Y darn o brif gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 15 metr i'r gorllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r gefnffordd dros yr A487 wrth Gyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth, Gwynedd hyd at bwynt 150 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5025 dros y gefnffordd wrth Gyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge, Ynys Môn.

3. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge, Ynys Môn.

4. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 8A, Pont Britannia, Ynys Môn.

5. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth, Gwynedd.